

Cyfarwyddiadau ar gyfer yr Arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (Hwb)

Cyflwyniad

Bydd y ddogfen hon yn egluro sut i fynd at yr arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a'i rannu ag aelodau eraill o'ch ysgol a sut gall penaethiaid a Chydgysylltwyr Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu weld yr adroddiadau ar ôl i'r arolwg gael ei gwblhau.

Bydd pob ysgol yn mynd i'r arolwg drwy'r un ddolen. Bydd dolen i'r arolwg ar gael bob blwyddyn academiaidd (o fis Medi tan fis Gorffennaf). Dim ond unwaith bob blwyddyn academiaidd y bydd ysgolion yn gallu cwblhau'r arolwg. Yr ysgolion sydd i benderfynu pryd y bydd eu staff yn cwblhau'r arolwg yn ystod y flwyddyn academiaidd.

Bydd dolen newydd ar gael ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd ym mis Medi er mwyn i ysgolion ailadrodd yr arolwg (ee AY2022/23). Gall ysgolion unigol benderfynu pryd y bydd eu staff yn cwblhau'r arolwg yn ystod y flwyddyn academiaidd a byddant yn pennu eu hamserlen eu hunain.

Bydd rolau staff yr ysgol yn cael eu cynnwys yn awtomatig yn yr arolwg drwy'r System Gwybodaeth Reoli, ee SIMS neu'r Ganolfan Athrawon fel rhan o'r Cyfrifiad Blyneddol o'r Gweithlu Ysgolion.

I wneud y mwyaf o'r nodweddion yn Hwb, rydym yn awgrymu eich bod yn defnyddio'r PORWR GWE CHROME i fewngofnodi, i gwblhau'r arolwg ac i weld yr adroddiadau.

Cael gafael ar y ddolen i'r arolwg

Mewngofnodwch i Hwb ac fe welwch y ddolen i'r arolwg ar [y dudalen Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ar Hwb](#). Bydd pob ysgol yn mynd i'r arolwg drwy'r un ddolen.

Arolwg Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu



Mae'r arolwg **Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu 2022 i 2023** bellach yn fyw (sylwer: mae angen i chi fod wedi mewngofnodi i'ch cyfrif Hwb er mwyn gweld yr arolwg hwn). Bydd yr arolwg ar gael drwy gydol y flwyddyn academiaidd.


Os oes gennych ymholiadau yn ymwneud â'r arolwg, cysylltwch â slo@llyw.cymru.

Rhannu'r arolwg yn eich ysgol i'w gwblhau


Fel pennaeth neu Gydgysylltydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, gallwch gyfeirio eich staff i'r dudalen Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ar Hwb er mwyn cael gafael ar y ddolen i'r arolwg. **Dylech osod dyddiad cau ymateb ar gyfer yr**

arolwg a rhoi gwybod i'ch staff amdano drwy roi nodyn yn y dyddiadur, er enghraifft.


Bydd angen i bob aelod o staff yn eich ysgol fewngofnodi i Hwb, clicio ar y ddolen i'r arolwg ac wedyn ateb y cwestiynau. Mae'n bwysig eu bod yn cyflwyno eu hatebion ar ôl cwblhau'r arolwg. Gall defnyddwyr ddechrau cwblhau'r arolwg ac wedyn dychwelyd ato yn ddiweddarach gan y bydd yr ymatebion y maent eisoes wedi'u rhoi a hefyd eu lle yn yr arolwg yn cael eu cadw.



Cliciwch yma i weld ymwadiad yr arolwg



Cliciwch yma i ddechrau'r arolwg



Cofiwch glicio ar 'Cyflwyno Arolwg' i gofnodi eich atebion

Pan fydd o leiaf un aelod o'ch ysgol wedi cwblhau'r arolwg, bydd yr adroddiadau'n dechrau cael eu cynhyrchu.

Cael gafael ar yr adroddiadau

Bydd ysgolion yn cael mynediad awtomatig at eu canlyniadau drwy adran adrodd yr arolwg. **Bydd y canlyniadau'n cymryd ychydig oriau i gofrestru, felly ni fyddant gael ar unwaith drwy adroddiadau'r arolwg.** I weld yr adroddiadau, bydd angen ichi fewngofnodi i Hwb a chlicio '**Rhestrau Chwarae**'.



Cliciwch ar 'Rhestrau Chwarae'

Yn 'Rhestrau Chwarae' cliciwch ar y tab 'Wedi'i rannu gyda mi'. Os nad ydych yn gallu mynd i'r arolwg yn y tab 'Wedi'i rannu gyda mi', neu os nad ydych yn gweld y tab 'Wedi'i rannu gyda mi' o gwbl, cysylltwch â desg gymorth Hwb (hwb@llyw.cymru). Os nad ydych wedi diweddarau'r system gwybodaeth reoli, ni fyddwch yn gweld y ddolen hon.

Cliciwch yma i weld yr adroddiadau

The screenshot shows the Hwb dashboard with the 'Rhestrau Chwarae' (Match Lists) section selected. The dashboard includes a header with the Hwb logo, navigation links, and a search bar. The main content area shows a list of match lists, with the 'Weddi rannu gyda mi' button highlighted by a blue arrow.

I weld yr adroddiadau o fan hyn, cliciwch ar deitl y rhestr chwarae, hy Arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a bydd y sgrin isod yn ymddangos.

The screenshot shows the 'Arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu' report. The report includes a summary of data for the 'Arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu' playlist, showing 6,875 Defnyddwyr (Users), 5,671 Cyfanswm wedi'i gwblhau (Total completed), 0% Sgôr Gyfartalog (Average score), and 10,325 Sawl gwaith mae wedi'i ei (How many times it has been viewed).

Llywio a dadansoddi

Unwaith y byddwch wedi mynd at yr adroddiadau, byddwch yn gweld y sgrin trosolwg cychwynnol, a fydd yn dangos:


- nifer y defnyddwyr sydd wedi cwblhau'r arolwg
- nifer yr arolygon sydd wedi'u cwblhau
- y sgôr cyfartalog
- faint o weithiau mae tudalen eich ysgol wedi'i gweld.

Gall nifer y defnyddwyr sydd wedi cwblhau'r arolwg fod yn wahanol i nifer yr arolygon sydd wedi'u cwblhau os yw defnyddiwr wedi cwblhau'r arolwg fwy nag unwaith.


Gallwch wedyn ddadansoddi ymhellach i weld y data adrodd ar bob cwestiwn drwy ddewis y gwymplen uwchben yr adran adrodd.

The screenshot shows the 'Arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu' report with a blue arrow pointing to the 'Survey' button. The report includes a summary of data for the 'Arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu' playlist, showing 6,875 Defnyddwyr (Users), 5,671 Cyfanswm wedi'i gwblhau (Total completed), 0% Sgôr Gyfartalog (Average score), and 10,325 Sawl gwaith mae wedi'i ei (How many times it has been viewed).

Tra bo'r data diweddaraf yn cael eu cynhyrchu, fe welwch ddiweddariad llwytho ar y sgrin.




I weld y diagram gwe corryn ar gyfer yr arolwg yn ei gyfanrwydd, cliciwch ar y ddolen 'Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu'.



Bydd y diagram gwe corryn sy'n dangos y canlyniadau cyffredinol yn dangos sgôr 1 - 5. 1 = anghytuno'n gryf a 5 = cytuno'n gryf.


Gallwch barhau i hidlo o fewn y gwympen drwy'r gwahanol grwpiau cwestiynau. Bydd hyn yn eich galluogi chi i weld adroddiad manwl ar sut atebwyd cwestiwn penodol. Ceir isod enghraifft o lywio drwy'r grwpiau cwestiynau drwy ddefnyddio'r gwympen.



Ar y lefel hon, gallwch weld diagram gwe corryn sy'n cynrychioli'r ymatebion ar gyfer dimensiwn unigol neu'r ymatebion cyffredinol ar gyfer pob dimensiwn. Bydd y diagram gwe corryn yn cael ei ddangos fel y llun isod. Sgrolwch i lawr a byddwch hefyd yn gallu gweld pob ymateb fel canran.

Dosbarthiad Cyfartalog fesul Cwestiwn

Options




Dosraniad Atebion fesul Cwestiwn

	Cytuno'n llwyr	Cytuno	Niwtral	Anghytuno	Anghytuno'n llwyr
F1. Yn fy ysgol i, caiff cyfleoedd a bygythiadau y tu allan i'r ysgol eu monitro yn barhaus er mwyn gwell ein harfer.	23%	51%	23%	3%	0%
F2. Yn fy ysgol i, mae'r staff yn cydweithio, yn dysgu ac yn rhannu gwybodaeth a chyfoedion eraill yn yr ysgol.	23%	50%	20%	6%	1%
F3. Yn fy ysgol i, mae'r ysgol gyfan yn rhan o rwydweithiau neu drefniadau cydweithio rhwng ysgolion.	24%	47%	23%	6%	1%
F4. Yn fy ysgol i, mae rhieni/gwarcheldwaid yn bartneriaid ym mhrosesau sefydliadol ac addysgol yr ysgol.	16%	47%	30%	6%	1%
F5. Yn fy ysgol i, mae'r staff yn mynd ati i gydweithio â gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd er mwyn gallu ymateb yn well i anghenion dysgwyr.	33%	51%	14%	2%	0%
F6. Yn fy ysgol i, mae'r staff yn mynd ati i gydweithio â sefydliadau addysg uwch er mwyn dyfnhau'r broses o ddysgu staff a dysgwyr.	20%	44%	28%	7%	1%
F7. Yn fy ysgol i, mae'r staff yn mynd ati i gydweithio â phartneriaid allanol eraill er mwyn dyfnhau'r broses o ddysgu staff a dysgwyr.	22%	51%	23%	4%	0%

Cymharu adroddiadau


Byddwch yn gallu hidlo'r canlyniadau i ddangos y diagram gwe corryn yn ôl blwyddyn academiaidd (blwyddyn y data rydych chi am edrych arno) ac yn ôl rôl yn yr ysgol (pennaeth, athro, staff cymorth). Os ydych yn arweinydd rhanbarthol neu'n arweinydd awdurdod lleol, bydd modd i chi hidlo yn ôl lleoliad hefyd. I ddechrau hidlo eich canlyniadau, cliciwch ar '+Add filter.'



Bydd clicio ar '+Add filter' yn rhoi'r opsiwn ichi ychwanegu hidlydd newydd. Bydd ffenestr naid yn agor, lle byddwch chi'n gallu gwneud eich dewisiadau.

Hidlo yn ôl math o staff

Cliciwch 'Rolau' i ychwanegu hidlydd ar gyfer math o staff.



I ddewis 'Athro/athrawes' fel un hidlydd, cliciwch 'Athro/athrawes' a chlicio cadw. Yna gallwch ailadrodd y camau hyn i ychwanegu hidlydd ar gyfer 'Staff Cyffredinol' ac ar gyfer 'Pennaeth' os ydych am gymharu ymatebion y rolau staff hyn. Bydd enw'r hidlydd yn diweddarau'n awtomatig i ddangos eich detholiad. Er enghraifft, os

dewiswch 'Athro/athrawes', bydd enw'r hidlydd yn diweddarau i 'Rolau / Athro/athrawes'. Gellir golygu enw'r hidlydd hefyd fel y dangosir isod – cliciwch yn y blwch a theipio enw'r hidlydd ynddo.

Os ydych am gymharu pob arolwg a gwblhawyd gyda'r arolygon a gwblhawyd gan un math o rôl staff, gallwch wneud hyn fel y nodir uchod. Os ydych am gymharu ymatebion tair rôl wahanol o staff, gallwch wneud hyn drwy ddewis 'golygu' ar set hidlo 1. Fel arall pob defnyddiwr sydd wedi'i osod yn ddiofyn ar gyfer eich ysgol. Yna bydd angen i chi ddefnyddio '+Add filter' i ychwanegu'r rolau staff eraill.

Crynodeb

Roles / Teacher	Roles / Support staff	Roles / Headteacher
4,226 Defnyddwyr	3,011 Defnyddwyr	329 Defnyddwyr
4,619 Cyfanswm wedi'i gwblhau	3,338 Cyfanswm wedi'i gwblhau	388 Cyfanswm wedi'i gwblhau
3.8 Dosbarthiad Cyfartalog	3.9 Dosbarthiad Cyfartalog	4 Dosbarthiad Cyfartalog

Report generated on: 09/09/2022 14:27

Dosbarthiad Cyfartalog fesul Cwestiwn

Legend: Roles / Teacher (Blue), Roles / Support staff (Pink), Roles / Headteacher (Green)

F1. Yn fy ysgol i, caiff cyfleoedd a bygythiadau y tu allan i'r ysgol eu monitro yn barhaus er mwyn gwell ein harfer.

Cytuno'n llwyr

Hidlo yn ôl blwyddyn academiaidd

Os oes angen i chi edrych ar ymatebion ar gyfer blwyddyn academiaidd benodol, gallwch bwyso 'Wedi'i rannu fel' er mwyn dewis y flwyddyn academiaidd y cwblhawyd yr arolwg ynddi.

Bydd angen ichi sicrhau eich bod yn gosod yr 'hidlydd cynnwys i'r flwyddyn academiaidd yr ydych am edrych arni. Er mwyn gwneud hyn, cliciwch 'edit' yn y blwch hidlo yn y gongl chwith uchaf. Bydd hyn yn agor ffenestr naid, lle byddwch yn gallu ychwanegu hidlwyr ar gyfer rolau a blynyddoedd academiaidd.

Ar ôl i chi ddewis y flwyddyn academiaidd, pwyswch 'cadw' a byddwch yn gweld diweddariad o adroddiad yr arolwg.

Os na fyddwch yn dewis blwyddyn academiaidd, bydd **pob arolwg a gwblhawyd** ar gyfer eich ysgol am **bob blwyddyn academiaidd** yn cael eu dangos yn ddiofyn.

Hafan > Rhestrau Chwarae > Bwrdd stori

Dim hidlwyr
Edit

+ Add filter

Playlist | Arolwg ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu | dewiswch weithgaredd (1) ▾

Ychwanegu set hidlo newydd

Hidlau Defnyddiwr

Siart Sefydliad

LIC cenedlaethol

Roles

Iaith defnyddiwr

Hidlau Cynnwys

Rhannu fel

Rhannu fel

- ☐ AY20/21
- ☐ BA/AY19/20
- ☐ AY21/22
- ☐ AY22/23

Hidlo set enw

Roles / Teacher

Sefydliad


Roles / Teacher

Cadw

Canslo

Lawrlwytho'r data

Mae dau opsiwn ar gael i lawrlwytho'r data, sef "Allforio CSV" ac "Cadw ac argraffu adroddiad". Gallwch fynd at bob un o'r rhain gan ddefnyddio'r botymau a ddangosir isod. Mae'r rhain i'w gweld yng nghongl dde uchaf y sgrin.




Bydd yr opsiwn 'Allforio CSV' yn rhoi taenlen excel o'r data ichi ac ni fydd yn cynnwys unrhyw graffiau gwe corryn na chynrychiolaeth graffigol o'r ymatebion. Bydd y CSV yn cynnwys data ar gyfer y dudalen rydych chi arni pan fyddwch chi'n dewis 'Allforio CSV'.

Er mwyn arbed allbrint o'r graffiau gwe corryn, gallwch ddefnyddio'r opsiwn 'Cadw ac argraffu adroddiad'. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn yr adran **Cadw ac argraffu adroddiadau**.

Edrych ar y graffiau gwe corryn

Mae gennych yr opsiwn i weld y graffiau yn unigol, yn ôl adran neu yn ôl grŵp cwestiynau. Fel arall, gallwch weld yr holl graffiau ar gyfer yr adran neu'r grwpiau cwestiynau ar y cyd.

Pan fyddwch wedi dewis eich adran neu grŵp cwestiynau (fel y dangosir yn y diagram isod), mae angen ticio'r blwch "gweld siartiau lefel pob grŵp cwestiynau". Bydd modd ichi weld pob graff gyda'i gilydd wedyn. Cofiwch y gall llwytho gymryd ychydig funudau.



Cadw ac argraffu adroddiadau

Gallwch arbed ac argraffu'r holl graffiau gwe corryn ar unwaith gyda'r botwm "Cadw ac argraffu adroddiad". Dylech fynd i'r lefel 'adran' i weld ac arbed y graffiau gwe corryn ar gyfer pob un o'r grwpiau cwestiynau mewn un adroddiad unigol. Cliciwch 'gweld siart lefel pob grŵp cwestiynau (7)' fel y disgrifir uchod, a bydd hyn yn creu'r graffiau gwe corryn ar gyfer pob un o'r grwpiau cwestiynau.


I arbed yr adroddiad, cliciwch 'Cadw ac argraffu adroddiad'. Bydd ffenestr naid yn agor, gan roi'r dewis ichi naill ai argraffu'r adroddiad neu ei arbed. Os ydych wedi eich cysylltu ag argraffydd, bydd opsiynau'r argraffydd ar gael o dan 'Destination'. Os hoffech chi arbed yr adroddiad yn lle hynny, sicrhewch fod y gyrchfan wedi'i gosod fel 'Save as PDF.' Cliciwch 'cadw' o fewn y ffenestr naid i arbed yr adroddiad i'ch dyfais.

Cofiwch, bydd yr adroddiad a arbedir yn giplun o'r graffiau gwe corryn ar yr adeg y byddwch wedi arbed. Bydd hefyd yn cynnwys unrhyw hidlyddion rydych chi wedi'u gosod ar y sgrin. Os byddwch yn addasu'r hidlyddion yn ddiweddarach, bydd angen i chi arbed fersiwn newydd o'r adroddiad er mwyn i'r newidiadau hynny gael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad rydych chi wedi'i arbed.

Sylwch y bydd angen ichi aros i'r holl graffiau gwe corryn lwytho cyn gwasgu 'Cadw ac argraffu adroddiad' i sicrhau bod gan yr allbrint yr holl fanylion sydd eu hangen arnoch. Byddwch yn gweld yn glir pan fydd yr adroddiadau'n dal i gael eu cynhyrchu gan y bydd neges 'llwytho' i'w gweld yn lle'r graffiau gwe corryn. Unwaith y bydd pob graff i'w weld, gallwch ddewis 'Cadw ac argraffu adroddiad'.

Arbed graff unigol

Bydd yr opsiwn i arbed graff gwe corryn unigol ar gael o hyd drwy'r botwm 'Opsiynau' yn erbyn pob un o'r graffiau gwe corryn.



Os oes angen ichi arbed graff gwe corryn unigol ar gyfer cyflwyniad neu adroddiad, gallwch wneud hynny drwy ddefnyddio naill ai'r opsiwn 'Lawrlwytho PNG' neu'r opsiwn 'Lawrlwytho JPG'. Bydd hyn yn arbed copi o'r graff gwe corryn unigol i'ch dyfais. Sylwch, bydd unrhyw hidlyddion y byddwch yn eu hychwanegu at yr adroddiad yn cael eu cadw yn y fersiwn a arbedir.

Os hoffech lawrlwytho dadansoddiad o'r ymatebion, gallwch ddefnyddio'r opsiwn 'Lawrlwytho CSV' yn erbyn adrannau unigol o'r adroddiad. Sylwer, fydd yr opsiwn hwn **ddim** yn cynnwys unrhyw gynrychiolaeth graffigol o'r adroddiad a bydd yn cynnwys data ar gyfer yr adran unigol hon o'r adroddiad yn unig.

Cwestiynau cyffredin

Beth yw diben rôl y Cydgysylltydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu?

Os bydd pennaeth yn penderfynu enwebu Cydgysylltydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ar gyfer ei lleoliad, bydd yr unigolyn hwnnw, yn ogystal â'r pennaeth, yn cael gweld canlyniadau'r arolwg. Drwy hyn gellid rhannu'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r arolwg rhwng dau unigolyn yn y lleoliad.

Sut y gallaf enwebu Cydgysylltydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn fy lleoliad?

Yn gyntaf, rhaid ichi gadarnhau bod yr holl wybodaeth ar gyfer eich lleoliad yn gyfredol ar system gwybodaeth reoli eich lleoliad. Ar ôl ichi wneud hynny a phan fydd eich cleient darparu Hwb wedi rhedeg ar gyfer eich lleoliad, bydd modd ichi enwebu unigolyn yn eich lleoliad yn Gydgysylltydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn y Porth Rheoli Defnyddwyr.

1. Mewngofnodwch i Hwb a mynd i'r Porth Rheoli Defnyddwyr.
2. Cliciwch Gweinyddu > Cydgysylltydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Bydd y Cydgysylltwyr Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu presennol yn ymddangos ar frig y dudalen a bydd rhestr o'r holl aelodau staff sy'n weddill yn ymddangos oddi tanynt.
3. Dewch o hyd i'r aelod staff perthnasol.
4. Cliciwch Hyrwyddo i ychwanegu aelod o staff fel Cydgysylltydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu.
5. Bydd y sgrin isod yn ymddangos: "Ydych chi'n siŵr eich bod chi eisiau hyrwyddo BloggsJ@Hwbcymru.net i rôl Cydgysylltydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu?"
6. Cliciwch 'Ydw' i barhau (neu Canslo i ganslo'r cyfarwyddyd).

Bydd yr unigolyn a enwebwyd fel Cydgysylltydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn gallu gweld canlyniadau'r arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn awtomatig.

Pwy ddylai fod yn Gydgysylltydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu?

Os bydd penaethiaid am enwebu Cydgysylltydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ar gyfer eu lleoliad, gallant benderfynu pwy yn y lleoliad sydd yn y sefyllfa orau i allu ymgymryd â'r rôl. Gellid enwebu aelod o'r tîm arwain sy'n gyfrifol am Ddysgu Proffesiynol, er enghraifft.

A allaf ddileu ymatebion i'r arolwg os oes angen i mi wneud hynny?

Nid yw'n bosibl dileu ymatebion i'r arolwg unwaith y byddant wedi eu cwblhau.

Pan fydd staff yn cwblhau'r arolwg eto yn ystod y flwyddyn academaidd hon, a fydd hyn yn cynhyrchu adroddiad Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ar wahân i'r llynedd?

Bydd, fe fydd adroddiad newydd yn cael ei lunio ar gyfer eleni.

Sut mae ysgolion yn mynd at ganlyniadau eu harolygon Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu blaenorol?

Gall ysgol fynd at ganlyniadau eu harolygon Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu blaenorol fel hyn:

- mewngofnodi i Hwb
- mynd i 'Rhestrau Chwarae'
- mynd i'r tab 'Wedi ei rhannu gyda mi'
- clicio'r ddolen i'r arolwg 'Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu'
- yn ardal yr adroddiadau ar ochr dde y dudalen, mynd i'r opsiwn i 'hidlo' canlyniadau
- clicio 'Rhannu fel..' a dewis y flwyddyn academaidd berthnasol
- bydd y canlyniadau wedyn yn dangos ar y sgrin.

Pwy fydd yn gweld canlyniadau'r arolwg?

Dim ond eu data eu hunain fydd pob ysgol yn eu cael. Bydd canlyniadau'r arolwg ar gael i'r Pennaeth ac i'r Cysylltydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a enwebwyd gan yr ysgol. Mae'r dull o gasglu, rhannu a defnyddio'r canlyniadau yn cael ei bennu gan yr ysgol unigol. Gellir defnyddio'r canlyniadau i hwyluso trafodaethau ymhlith staff ac i helpu i gynllunio gwelliannau i'r ysgol. Fel ysgol, efallai y byddwch am rannu eich data â phartneriaid clwstwr er mwyn hwyluso gwaith partneriaeth a mynd i'r afael â meysydd cyffredin sydd i'w gwella.